Griffith John, Tsieina, 1831–1912
Cenhadwr

Ganwyd Griffith John ar 14 Rhagfyr 1831 yng Nglandŵr, Abertawe, yn un o ddau o blant. Ni wyddom enwau ei rieni ond roedd ei dad yn gweithio fel fforman yng ngweithfeydd cwmni Vivian a'i feibion yn y dref. Bu farw ei fam o golera pan oedd ef yn wyth mis oed. Oherwydd ei aeddfedrwydd ysbrydol daeth yn aelod cyflawn o eglwys yr Annibynwyr, Ebeneser, yn wyth oed. Peth anarferol iawn oedd i blentyn mor ifanc gael ei dderbyn yn aelod. Pan oedd yn ddeuddeg oed dechreuodd weithio mewn siop yn Onllwyn lle y treuliodd bedair blynedd. Yng nghartref perchennog y siop traddododd ei bregeth gyntaf pan oedd yn bedair ar ddeg. O dan arweiniad ei weinidog Elijah Jacob penderfynodd fynd i'r weinidogaeth ac fe aeth i Goleg Coffa Aberhonddu ym 1850.

Tra oedd yn y coleg fe deimlodd alwad gan Dduw i fynd i'r maes cenhadol. Ysgrifennodd lythyr at gyfarwyddwyr Cymdeithas Genhadol Llundain ym 1853 yn ei gynnig ei hun i'r genhadaeth. Derbyniwyd ei gais ac fe'i hanfonwyd i goleg y Gymdeithas yn Bedford i gael ei baratoi. Wedi naw mis yn y coleg fe wirfoddolodd i fynd yn genhadwr i Tsieina. Cynhaliwyd oedfa i'w ordeinio er mwyn ei neilltuo i'r gwaith yn Ebeneser, Abertawe, a'r wythnos ganlynol fe briododd â Margaret Jane Griffiths.

Hwyliodd Griffith John i Shanghai ar y llong *Hamilla Mitchell*, gyda'i wraig a'i gyd-genhadon, taith a gymerodd 120 o ddyddiau, gan lanio yn Woosung, porthladd bach ryw deuddeg milltir o Shanghai ym mis Medi 1855. Aeth ati'n ddiymdroi i ddysgu siarad Mandarin, ac wedi dysgu peth o'r iaith aeth ati i deithio, mewn cychod gan fwyaf, i drefi fel Sung-cong, Soochow a Bing-wu, er mwyn rhannu'r newyddion da am Iesu Grist. Sefydlwyd gorsaf barhaol gan y cenhadon ym mhorthladd Hancow a daeth eu teuluoedd i ymuno â hwy ym 1861; wedi blwyddyn o waith yr oedd saith o aelodau yn eglwys Hancow. Yn y dref hon y treuliodd Griffith John y rhan fwyaf o'i fywyd, er iddo fynd ar

deithiau'n achlysurol. Er enghraifft, ym 1868 teithiodd 3,000 o filltiroedd gydag Alexander Wylie trwy daleithiau Szechuen a Shensi yn cywain gwybodaeth. Ym 1873 bu farw ei wraig ar long yn harbwr Singapore ac enwyd Ysbyty Margaret i ferched, Hancow, er cof amdani. Profodd yr ysbyty yn gyfrwng cenhadol effeithiol yn yr ardal trwy ddangos cariad Duw yn ymarferol. Ailbriododd y flwyddyn ddilynol â Mrs Jenkins, gweddw cenhadwr Americanaidd, a bu hithau farw ym 1885. Sefydlwyd Cymdeithas Tractiau Hancow ym 1876 a Griffith John oedd ei llywydd cyntaf.

Bu'n gyfrifol am gyfansoddi nifer o'r traethodau a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas. Cyfieithodd hefyd fersiwn Mandarin o'r Testament Newydd (1885) – nad oedd mor ysgolheigaidd â chyfieithiad Medhurst (1854) – er mwyn cyrraedd y bobl gyffredin, ac erbyn 1890 yr oedd wedi gorffen Llyfr y Salmau a'r Diarhebion. Oherwydd ei waith mawr dyfarnodd Prifysgol Caeredin radd DD, er anrhydedd iddo.

Daeth erledigaeth i ran llawer o Gristnogion brodorol yn sgil gwrthryfel ym 1900 a merthyrwyd miloedd ohonynt oherwydd eu ffydd. Daeth y cenhadon estron hefyd o dan fygythiad ac awgrymwyd y dylent symud o Hancow, ond tawelodd y dyfroedd erbyn y flwyddyn ddilynol. Agorwyd coleg gan Gymdeithas Genhadol Llundain yn Hancow, ac fe'i henwyd yn Goleg Griffith John oherwydd ei gyfraniad i'r gwaith cenhadol yno. Bu farw yn Llundain ar 25 Gorffennaf 1912 a chladdwyd ef yn Sgeti, Abertawe.